

Mr Michael Hartey
Coed Du Hall Ltd
6-8 Old Hall Road
Gatley
Cheadle
Swydd Gaer
SK8 4BE

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

21 Tachwedd 2014

Annwyl Mr Hartey,

Yngylch: Ymweliad â Neuadd Coed Du ar 13, 14 a 15 Hydref 2014.

Fel y gwyddoch cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â Neuadd Coed Du ar 13, 14 a 15 Hydref 2014. Prif ganolbwynt yr ymweliad oedd gweld cynnydd o ran mynd i'r afael â'r problemau y tynnwyd sylw atynt yn ein hymweliad blaenorol ym mis Mehefin 2014.

Tynnodd yr ymweliad sylw at feysydd nodedig gan gynnwys:

- Y ffordd gadarnhaol roedd y staff wedi cydweithredu â'r broses arolygu.
- Y berthynas dda barhaus a welwyd rhwng cleifion a staff.
- Parhaodd cleifion a staff i wneud sylwadau cadarnhaol am yr amrywiaeth o fwyd a'i hansawdd, fodd bynnag nodwyd problemau o ran dosbarthu prydu bwyd. (Gweler pwynt 11)
- Roedd y canllaw a siarter darluniadol i gleifion yn fenter gadarnhaol.

Gwnaethom hefyd nodi bod agweddau y tynnwyd sylw atynt yn ein hymweliad blaenorol (mis Mehefin 2014) wedi gwella rywfaint:

- Derbyniodd AGIC adroddiad Rheoliad 28 ym mis Medi 2014 ac roedd hwn yn fanwl ac yn gynhwysfawr. (pwynt 5, ymweliad Mehefin 2014)

- Roedd presenoldeb staff ar gyrsiau hyfforddiant gorfodol wedi gwella'n sylweddol, ac mae system fwy cadarn ar waith ar gyfer monitro.
- Roedd ffeiliau staff wedi cael eu harchwilio a'u cyflwyno'n dda. Roedd gwybodaeth am gyflogaeth yn fwy cyson ac roedd arfarniadau staff wedi digwydd ac ar y gweill. (pwynt 9)
- Roedd dogfennau cleifion wedi gwella ac roedd cynlluniau rhyddhau ar waith. (pwynt 11)
- Roedd tystiolaeth glir o gyfraniad gan y tîm amlddisgyblaethol i'r broses o gynllunio gofal. (pwynt 4)

Gwnaeth ein hymweliad hefyd dynnu sylw at nifer o broblemau. Gwnaethom ddarparu trosolwg llafar o'n pryderon i'ch rheolwr ar ddiwedd ein hymweliad ar 15 Hydref 2014. Mae crynodeb o'r rhain wedi'i nodi isod:

Testun Pryder	Rheoliad
<p>1. Roedd rhywfaint o wybodaeth bwysig nad oedd nyrs gofrestredig yr asiantaeth a oedd ar ddyletswydd ar brynhawn 13/10/2014 yn ymwybodol ohoni.</p> <ol style="list-style-type: none"> Nifer y cleifion yn yr ysbyty. Nifer y gwelyau yn yr ysbyty. Yr hysbysfwrdd gwybodaeth cleifion yn y swyddfa. P'un a oedd unrhyw gleifion yn destun i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). Mynediad at yr adroddiad trosglwyddo a oedd wedi'i storio ar y cyfrifiadur. 	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a Rheoliad 20 (1) (a) a (b)</p>
<p>Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd a rhaid cyfeirio'r materion sy'n ymwneud â'r nyrs gofrestredig yn ôl i'r asiantaeth dan sylw</p> <p>2. Wrth gyrraedd Neuadd Coed Du Hall ac wrth fynd i ward Cedrwydden, roedd yn glir bod o leiaf dau aelod o staff ar uned Cedrwydden a ddylai fod wedi bod ar wardiau eraill. Gwirionedd y sefyllfa hon oedd i'r wardiau eraill gael eu gadael heb staff. Rhaid i'r holl wardiau fod â nifer briodol o staff bob amser.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a Rheoliad 20 (1) (a)</p>
<p>3. Nid oedd y rhestr wirio sefydlu ar gyfer nyrs gofrestredig yr asiantaeth A wedi ei chwblhau. O'r herwydd, roedd yn anodd canfod pa agweddau ar y broses sefydlu ar gyfer staff asiantaeth oedd wedi eu cwblhau. Tynnwyd sylw at y pwynt hwn ym mis Mehefin 2014 ac mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (b)</p> <p>Rheoliad 21 (2) (b)</p>

<p>4. Yn ystod ein hymweliad roedd staff asiantaeth ar ddyletswydd (A a B), fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth ar gael i gadarnhau pa sgiliau a phrofiad oedd ganddynt. Tynnwyd sylw at y pwynt hwn ym mis Mehefin 2014 (pwynt 2) ac mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater ar unwaith. Rhaid bod gan y darparwr cofrestredig dystiolaeth bod gan staff asiantaeth y profiad a'r hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau cysondeb gofal ar gyfer y grŵp cleifion.</p> <p>5. Archwiliwyd sampl o ddogfennau gofal cleifion a gwnaed yr arsylwadau canlynol:</p> <p>a. Claf C ar ward Cedrwydden:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Nid oedd y cofnod arsylwi wedi'i ddiweddarau. Am 11:20am, pan archwiliodd AGIC y cofnodion, y cofnod olaf oedd am 10:00 ac nid oedd y cofnod hwn wedi'i lawn gwblhau. ii. Nid oedd cofnodion arsylwi eraill wedi'u llawn gwblhau ac nid oeddent yn ddigon manwl. iii. Nid oedd y cynllun rhyddhau wedi'i werthuso yn unol ag amserlenni nodedig. iv. Mae angen datblygu'r amserlen gweithgareddau a "'threfn y bore, brecwast ac ystafell daclus" i barhau'n nodwedd gyffredin. <p>b. Claf D ar Ward Onnen:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Diffyg tystiolaeth yn y cofnodion dyddiol o driniaeth ac ymyriadau therapiwtig. ii. Mae'r risg o fod yn agored i niwed wedi'i asesu yn "<i>uchel iawn</i>" ond nid oedd y strategaeth i reoli risg yn ddigon cadarn ac roedd diffyg manylder. iii. Roedd diffyg tystiolaeth ysgrifenedig bod y claf wedi cael ei gynnwys, nac wedi cael y cyfle i gael ei gynnwys yn y broses asesu risg. iv. Nid oedd y cynllun cymorth ar ddiabetes yn ystyried gofal traed a chymhlethdodau iechyd corfforol yn ddigonol. v. Mae angen datblygu'r amserlen gweithgareddau (Tachwedd 2014) yn bellach. 	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)</p>
--	--

<p>c. Claf E, Ward Cedar:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Roedd nifer o fylchau yn y cofnodion arsylwi. ii. Mae angen datblygu'r amserlen gweithgareddau'n bellach gan fod diffyg gweithgareddau ystyrlon. <p>d. Claf F, Ward Ffawyddden:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Roedd diffyg gwerthuso ynglŷn â'r cynllun cefnogi ymddygiad roedd y seicolegydd wedi ymgymryd ag ef, ac roedd yn aneglur sut roedd y cynllun hwn yn cyd-fynd â chynlluniau eraill. ii. Roedd y strategaeth reoli risg ar ymddygiad ymosodol tuag at bobl eraill ond yn ystyried dal neu hebrwng gan ddau o bobl, er bod achlysuron amlwg wedi bod lle roedd angen mwy na dau o bobl i rwystro'r claf. <p>Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd.</p> <p>6. Roedd gan nifer o gleifion gyfleoedd cyfyngedig i adael yr ysbyty ar gyfer gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Mae'n rhaid i bob claf gael y cyfle i fynychu gweithgareddau yn y gymuned.</p> <p>7. Yn dilyn yr adolygiad staff (pwynt 3, llythyr mis Mehefin 2014) mae dal i fod nifer o gleifion nad ydyn nhw'n cael gadael Neuadd Coed Du ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ymgymryd â dadansoddiad o absenoldeb â chaniatâd/gweithgareddau (y tu allan i diroedd Neuadd Coed Du) o fewn y tri mis diwethaf (Gorffennaf-Medi 2014) ac adrodd ar y canfyddiadau i AGIC.</p> <p>8. Mae angen ailaddurno ac ailwampio'r yr ysbyty yn barhaus. Yr ardaloedd sydd angen sylw yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Ceginau ar lefel y wardiau, yn enwedig Ward Ffawyddden lle roedd y wynebau gwaith yn dolciog. b. Roedd gan lolfa Ffawyddden staeniau hylifau ar y waliau a'r nenfwd. c. Mae angen sicrhau bod y seddi ar y wardiau yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Ar Ward Cedrwydden roedd rhai o'r sofas a chadeiriau'n eithriadol o isel ac roedd rhai cleifion yn cael trafferth wrth godi ohonyn nhw. 	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p> <p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a 19 (1) (a) a (b)</p> <p>Rheoliad 26 (2) (a) a (b)</p> <p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p> <p>Rheoliad 9 (1) (n) a 15 (1) (c)</p>
--	---

<p>9. Mae angen adolygiad parhaus o leoliadau'r cleifion. Er bod rhai cleifion wedi symud ymlaen, roedd rhai ar ôl sydd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod sylweddol. Nodwyd y pwynt hwn ym mis Mehefin 2014 (pwynt 13) ac mae'n rhaid parhau i adolygu'r lleoliadau hyn.</p> <p>10. Roedd prosesau rheoli heintiau'n dal i fod yn ddiffygiol, fel y nodwyd mis Mehefin 2014 (pwynt 7). Yn ystafell ymolchi Ward Onnen, roedd bag coch o ddillad wedi eu baeddu ar y llawr. Roedd y bag wedi torri a'r dillad yn gollwng ar y llawr. Roedd tyweli glân wedi eu pentyrru ar y caead bin budr ac roedd y toiled wedi ei faeddu'n drwm. Mae angen prosesau rheoli heintiau effeithiol a dylai'r rhain gael eu gweithredu'n ar unwaith.</p> <p>11. Mae angen adolygu'r dull o ddsbarthu bwyd a dylai ystyried y pwyntiau canlynol;</p> <ol style="list-style-type: none"> a. Staff Ward Onnen yn bennaf oedd yn cael eu dewis i roi bwyd i gleifion ar bob ward. b. Dywedodd staff a chleifion mai Ward Cedrwydden yn aml iawn oedd yr olaf i dderbyn y troli fwyd. O ganlyniad, nid oedd tymheredd y bwyd yn ddigon poeth a'r dewis yn gyfyngedig gan fod y wardiau eraill wedi cael eu gweini'n gyntaf. <p>12. Roedd ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd mae'r gwasanaeth yn datblygu, ac roedd diffyg cyfathrebu rhwng rhai disgyblaethau'n cael effaith negyddol ar forâl. Mae angen penderfyniad o ran datblygu'r gwasanaeth ac mae angen gwella cyfathrebu.</p> <p>13. Tynnodd adborth gan staff a chleifion sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth o ddarpariaeth eiriolaeth. Mae'n rhaid hyrwyddo ymwybyddiaeth o wasanaethau eiriolaeth.</p>	<p>Rheoliad 15 (9) (b)</p> <p>Rheoliad 18 (2) (a) a (b)</p> <p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p>
--	--

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl – Gweinyddu'r Ddeddf

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol 6 o'r cleifion a oedd yn derbyn gofal ar 3 o'r wardiau adeg ein hymweliad. Nodwyd yr arferion nodedig canlynol:

- Roedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl a staff allweddol wedi mynychu'r hyfforddiant Ddeddf Iechyd Meddwl.

- Roedd yr holl ffeiliau a archwiliwyd yn cynnwys papurau adnewyddu cyfredol ac roedd cynrychiolaeth gyfreithiol ym mhob ffeil yr edrychwyd arni.

Nodwyd y materion canlynol ac mae angen eu cynnwys yn eich cynllun gweithredu:

14. Nid oedd asesiadau personau iechyd meddwl cymeradwy (AMHP) ar gael gyda'r dogfennau cyfreithiol. Rhaid i asesiadau (AMHP) gyd-fynd â'r dogfennau cyfreithiol.
15. Mae gan yr ysbyty Glinigydd Cyfrifol (CC) newydd ac nid oedd asesiadau newydd o alluedd wedi'u cwblhau. Mae angen asesiad o alluedd.

Rhaid i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **12 Rhagfyr 2014** gan nodi'r hyn rydych chi wedi'i wneud eisoes yn ogystal â'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â phob un o'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu osod amserlenni a manylion y person fydd yn gyfrifol am weithredu'r camau. Wedi i AGIC gytuno bod y cynllun yn briodol bydd yn rhaid ichi ddarparu diweddariadau misol am y cynnydd yr ydych yn ei wneud.

Wedi ichi dderbyn y llythyr hwn mae'n ofynnol ichi wneud sylw ar gywirdeb ffeithiol y materion a grybwyllwyd ac wedi inni dderbyn eich cynllun gweithredu, bydd copi o'r llythyr rheolaeth hwn ynghyd â'ch cynllun gweithredu yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Efallai y byddwn yn cynnal ymweliad arall er mwyn sicrhau eich bod wedi mynd i'r afael â'r materion uchod yn ddigonol, a byddwn yn cynnal ymweliadau yn amlach os oes gennym bryderon ynglŷn â diffyg gweithredu prydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddi-oed i drafod cynnwys y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mr Malcolm Carr, Rheolwr Dros Dro.

Yn gywir



Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio

cc – Mr Malcolm Carr, Neuadd Coed Du, Heol Nantaly, Yr Wyddgrug, CH7 5HA